

Hysbyseb Recriwtio Welsh, Gifted & Black, Hawdd i'w Ddarllen

Ydych chi:

- Rhwng 21 a 25 mlwydd oed?
- Yn Ddu neu'n dras gymysg ac wedi'ch lleoli, neu yn agos at Dde Cymru?
- Yn rhywun sy'n dilyn y newyddion diweddaraf ar y cyfryngau cymdeithasol?
- Yn edrych am fodd i archwilio eich creadigrwydd?
- Yn unigolyn sydd â hanes i'w adrodd, ac sydd eisiau bod yn rhan o symudiad sy'n ymdrechu i

wneud Cymru yn wlad fwy cynhwysol,
addysgedig, amrywiaethol, a gwrth-hiliol?

Os mai ydw yw'r ateb, daliwch ati i ddarllen. Efallai
mai dyma'r cyfle perffaith i chi!

Mae Welsh, Gifted & Black yn gydweithfa
ryngddisgyblaethol wedi ei hariannu gan Gronfa
Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, sy'n angerddol
dros addysgu'r cyhoedd ac amlygu systemau
llygredig ac anghyfiawnder hiliol. Rydym yn
cynnwys 4 unigolyn Du a thras gymysg rhwng 18-
23, ac wedi'n lleoli yng Nghaerdydd.

Gan greu cyfres podlediad wyth pennod ac
arddangosfa sydd nid yn unig yn ychwanegu at y
podlediad, ond yn defnyddio cofnodion ac archifau

hanesyddol i fanwl archwilio'r presenoldeb a phrofiadau Du yng Nghymru, mae Welsh, Gifted & Black yn edrych i herio'r amcan bod bod yn Ddu a Chymreig yn annibynnol ar ei gilydd, ac yn cyflwyno hanesion Du i bobl Cymru ac ymhellach.

Wedi ei sefydlu yn Awst 2020, cawsom ein creu gan madeinroath fel ymateb i'r prysur bwysu byd eang ar hil, anghyfiawnder hiliol, ac anffafiaeth, a'r angen i unioni'r diffyg cynrychiolaeth o bobl Du a phobl o liw mewn gwahanol sectorau drwy Gymru gyfan. Yn ei hanfod, craidd Welsh, Gifted & Black yw cyflwyno hanesion Du, i amlygu profiadau Du ac i helpu ein cynulleidfa i ailfeddwl beth mae hanes wedi ein dysgu ynglŷn â phresenoldeb Du yng Nghymru. Nawr rydym yn edrych i ehangu'r

gydweithfa drwy recriwtio dau aelod newydd.

Dyma'ch cyfle chi.

Yn ogystal â mynychu cyfarfodydd grŵp gorfodol, fel aelod o'r gydweithfa, byddwch yn gyfrifol o gynhyrchu un o'r wyth pennod o'n cyfres podlediad.

Bydd y broses cynhyrchu yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- **Cyn-gynhyrchu:** arwain ymchwil ar gefndir a hanes thema eich podlediad, ac ymchwilio a chysylltu â darpar atebwyr i ymddangos ar y bennod.
- **Podlediad:** trefnu a recordio'r cyfweiliad, a chyflwyno'r bennod.
- **Ôl-gynhyrchu:** golygu'r sain a fideo'r bennod.

Bydd tal o £300. Yn ogystal â hyn, byddwch yn gweithio gyda ni i greu arddangosfa sy'n ategu'r podlediad. Bydd hyn yn cael ei greu mewn partneriaeth a Chasgliad y Werin Cymru ac Archifau Morgannwg. Bydd tal ychwanegol ar gyfer unrhyw waith ychwanegol a wneir.

Fel grŵp, rydym yn derbyn cefnogaeth gan madeinroath, ac rydym wedi gweithio gydag amryw o bobl a mudiadau gan gynnwys:

- Mymuna Soleman o'r Privilage Café,
- Gwneuthurwraig ffilm Liana Stewart,
- Hanesydd Abu-Bakr Madden Al-Shabazz
- Cyflwynydd Radio Platfform Molly Palmer ac Edward Lee.

Trwy Dr. Sarah Younan, mae gennym gysylltiadau
gydag Amgueddfa Cymru yn ogystal â chysylltiadau
gyda Chasgliad y Werin Cymru, Archifau
Morgannwg a Phrifysgol Caerdydd trwy Nicki
Kindersley

Os oes diddordeb gyda chi i ymuno a'r gydweithfa,
mae'n hanfodol eich bod a'r nodweddion canlynol:

- 21-25 mlwydd oed
- Du neu dras gymysg
- Gyda diddordeb mewn hanes a threftadaeth,
yn ogystal â meysydd sy'n cynnwys
chwaraeon, addysg, gwleidyddiaeth a gofal
iechyd.
- Gyda sgiliau golygu sain/fideo, ymchwil ac
admin

- Yn barod i gael sgysiau agored ac onest am hil, anffafiaeth, a themâu pwerus eraill.
- Yn ddibynadwy, atebol, cyfrifol, gweithgar ac onest.
- Yn brydlon ac yn frwdfrydig
- Gyda sgiliau cyfathrebu da
- A'r gallu i gynorthwyo gyda chyfryngau cymdeithasol a meysydd creadigol eraill
- A'r gallu i gynhyrchu eich pennod podlediad eich hunan

Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd yn niwroddiriol, gydag anabledd, gyda chefnidiroedd crefyddol gwahanol, a/neu yn uniaethu fel LGBTQIA+. Rydym hefyd yn annog yn gryf i siaradwyr Cymraeg i ymgeisio hefyd!

I ymgeisio, anfonwch ddatganiad ysgrifenedig hyd at un ochr A4. Cofiwch gynnwys manylion personol, fel:

- Eich enw, oedran, cefndir diwylliannol, a'ch lleoliad
- Unrhyw brofiad a sgiliau sydd gennych a byddai o fudd i'r grŵp
- Unrhyw gymwysterau perthnasol diweddar
- Esboniad o'r rheswm pam fyddech chi'n ychwanegiad da i'r gydweithfa, a pham eich bod chi eisiau bod yn rhan o Welsh, Gifted & Black.

Dewis arall os oes gennych anawsterau ysgrifennu yw ymgeisio drwy e-bostio eich manylion cyswllt at welshgiftedandblack@gmail.com , fel y gallwn

drefnu sgwrs Zoom neu alwad ffôn (a fydd yn cael ei recordio am resymau gwneud penderfyniadau) er mwyn i ni wybod y rhesymau hoffech chi ymuno a'r gydweithfa, pa sgiliau perthnasol sydd gennych, a pham fyddech chi'n ychwanegiad da i'r grŵp.

Os rydych yn teimlo y gallwch dderbyn yr her ac hoffwch ymuno a Welsh, Gifted & Black, e-bostiwch eich datganiad cais neu'ch manynion cyswllt at

welshgiftedandblack@gmail.com erbyn **Dydd**

Gwener 5ed Tachwedd 2021 os gwelch yn dda.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni ar y cyfeiriad e-bost uchod. Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy Instagram (**@welshgiftedblack**) neu Twitter (**@WGandB_**). Mae ein DMs ar agor i chi.

Rydym yn wir edrych ymlaen at glywed gennych
chi!